
# Cynllun Adnoddau Coedwig Gethin, Ystad Allen ac Ynysowen
# Crynodeb o'r Amcanion

Bydd y rhain yn gosod yr amcanion rheoli ar gyfer y cynllun adnoddau coedwig a gweithgareddau ehangach ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru er mwyn cynnal a gwella gwydnwch ecosystemau, a'r manteision y maent yn eu darparu. Rydym wedi amcanion gan ddefnyddio wyth thema Safon Coedwigaeth y DU. Mae pob thema yn uno polisïau, deddfwriaeth, strategaethau, safonau a gofynion ardystio coedwigoedd.




Mae Cynllun Adnoddau Coedwig Gethin ac Ynysowen yn cwmpasu ychydig dros 1,365 ha ac mae'n cynnwys tua phum coetir. Mae lleoliad y coetiroedd yn gymoedd serth ger cymunedau Merthyr Tudful i'r gogledd, trwy Aberfan, Aberpennar a Throed-y-rhiw, ac i lawr i Dreharris ac Abercynon yn y de.

Mae mwyafrif y cynllun adnoddau coedwig yn ymestyn rhwng afon Taf i'r dwyrain ac afon Cynon i'r gorllewin ac yn eistedd o fewn dalgylch ehangach afon Taf.

Mae'r cynllun adnoddau coedwig yn darparu nifer o fanteision, gyda rhai ardaloedd yn darparu adnodd pren gwerthfawr, eraill yn canolbwyntio ar hamdden (h.y. BikePark Wales) ac adfer cynefinoedd (adfer coetiroedd hynafol, cynefin y fadfall ddŵr gribog, cynefin glaswelltir).

| Thema Safon Coedwigaeth y DU | Amcanion deg mlynedd |
| --- | --- |
| Ymarfer coedwigaeth cyffredinol | **Rheoli Cynaliadwy Ystâd Coetiroedd Llywodraeth Cymru - Cynhyrchu pren**<br><br>• Mae cynnal cynhyrchu pren lle bo'n briodol (prif floc Gethin ac Ystad Allen yn benodol gan fod gan y rhain fynediad da yn gyffredinol).<br><br>• Os yw amodau'r safle a nodweddion y cnydau yn caniatáu, y nod yw defnyddio systemau gorchudd parhaus er mwyn darparu cyfleoedd i amrywio rhywogaethau ac adeiledd y coetiroedd, a fydd yn gwella cynaliadwyedd a gwydnwch y coedwigoedd, yn ogystal â darparu manteision economaidd. Mae rhai ardaloedd conwydd wedi'u teneuo'n dda, yn enwedig ym mhrif floc Gethin ac Ystad Allen, a dylid cynnal y rhain ar gyfer rheoli trwy System Goedamaeth Fach ei Heffaith.<br><br>**Seilwaith coedwigaeth**<br>• Mae'r cynllun adnoddau coedwig yn ei gwneud yn ofynnol i fuddsoddi mewn seilwaith a chyfleusterau coedwig er mwyn caniatáu mynediad ar gyfer torri coed yn y tymor byr er diogelwch ac er mwyn gwneud gwaith ar linellau pŵer ac ar gyfer rheolaeth bosibl tymor hwy yn y dyfodol.<br>• Mae angen mynediad i gyrraedd rhai o'r clystyrau llarwydd olaf sy'n weddill lle mae pren yn dal i fod yn hyfyw (e.e. prif floc Gethin). Bydd hyn yn galluogi presgripsiynau rheoli mwy amrywiol ac yn cynyddu ein gallu i deneuo'n rheolaidd a rheoli ar sail System Coedamaeth Fach ei Heffaith yn yr ardaloedd hyn. Os yw coed llarwydd yn rhan o'r cymysgeddau rhywogaethau, gellir parhau i'w teneuo lle bo modd.<br>• Ystyrir ardaloedd lle mae mynediad i gynaeafu coed ar raddfa fawr yn anodd ac ymchwilir i'r potensial ar gyfer marchnadoedd coed tanwydd lleol ar raddfa lai yn y dyfodol (e.e. Aberfan, Treharris) |
| Coedwigoedd a newid hinsawdd | **Gwydnwch coedwigoedd**<br><br>• Parhau i amrywio rhywogaethau, oedran a chyfansoddiad adeileddol y goedwig er mwyn cynyddu gwydnwch yn erbyn plâu a chlefydau, ac effeithiau newid hinsawdd (e.e. difrod gan wynt a thanau gwyllt)<br><br>• Tynnu'r clystyrau llarwydd sy'n weddill lle bo'n briodol a defnyddio'r cyfle hwn i amrywio rhywogaethau / adfer coetir hynafol<br><br>**Tanau gwyllt** |

| | |
|---|---|
| | • Mae risg uchel o danau gwyllt mewn llawer o ardaloedd o fewn y cynllun adnoddau coedwig hwn. Mae gwydnwch yn erbyn tanau gwyllt yn faes gwaith allweddol i dimau lleol ac mae'n gwneud cynnydd da o fewn prif floc Gethin. Mae hyn yn bwysig er mwyn amddiffyn yr adnoddau pren a BikePark Wales a bydd yn parhau.<br>• Parhau i weithio gyda thirfeddianwyr cyfagos, partneriaid, Gwasanaeth Tân De Cymru a'r gymuned er mwyn codi ymwybyddiaeth a lleihau'r risg o danau gwyllt drwy addysg a dylunio coedwigoedd – gan gynllunio a chyflawni mesurau rheoli tân priodol yn ystod ac ar ôl gweithrediadau, megis creu a rheoli breciau rhag tân o amgylch ardaloedd ailstocio, a rheoli ein cynefin agored sy'n weddill drwy gyfundrefn torri/pori lle bo'n briodol er mwyn lleihau'r llwyth tanwydd.<br>• Mae angen rhywfaint o fuddsoddiad mewn cynllunio a rheolaethau tân mewn blociau eraill a fydd yn cael sylw drwy gynlluniau gweithredol yn unol â dogfennau Strategaeth Tanau Gwyllt Canol De Cymru Doeth am Dân Cymru: Wildfire Prevention & Mitigation Strategy a Doeth am Dân Cymru: A Land Management Guide. |
| Coedwigoedd a bioamrywiaeth | **Bioamrywiaeth a chysylltedd**<br><br>Gweithio gyda phartneriaid a thimau eraill o fewn Cyfoeth Naturiol Cymru er mwyn nodi a darparu cyfleoedd i gysylltu a gwella rhywogaethau a chynefinoedd blaenoriaeth (e.e. rhostir, glaswelltir sur, coetir llydanddail) a safleoedd a rhywogaethau gwarchodedig (e.e. y fadfall ddŵr gribog a gwalch Marthin o fewn prif floc Gethin) o fewn ac yn gyfagos i'r coetiroedd hyn, er mwyn gwella gwydnwch a chysylltedd trwy greu rhwydweithiau natur / rhwydweithiau ardaloedd cadwraeth ac atal effeithiau negyddol o weithgareddau rheoli.<br>• Mae'r fadfall ddŵr gribog yn rhywogaeth bwysig sy'n defnyddio prif floc Gethin, a dylai gwaith barhau i amddiffyn a gwella'r rhywogaeth warchodedig a'i chynefin a dylid edrych ar gyfleoedd i gynyddu argaeledd cynefin mewn ardaloedd gwlyb, glaswelltir garw a phrysgwydd.<br>• Parhau i gysylltu ac adfer coetiroedd hynafol a brodorol yn unol â Strategaeth Goetiroedd Llywodraeth Cymru. Mae pocedi o goed dail llydan sy'n weddill a chlystyrau o goed dail llydan aeddfed mwy ledled yr holl flociau a fydd yn cael eu cynnal lle bo modd.<br>• Gwaith ar gysylltu cynefinoedd agored, rhodfeydd, ymylon ffyrdd ac ymyl y goedwig lle mae'n cysylltu â chynefin di-goed y tu allan i ardal y cynllun adnoddau coedwig er budd ystod eang o rywogaethau, gan gynnwys brith y gors |

| | |
|---|---|
| | • Gwella cysylltedd cynefinoedd glannau afonydd drwy gyflwyno clustogfeydd priodol o goetir torlannol wrth ailstocio (ac wrth deneuo'n gyntaf lle mae angen gwelliannau)<br>• Sicrhau ystyriaeth o gynefin blaenoriaeth o fewn ac yn gyfagos i ardal y cynllun adnoddau coedwig ar gyfer amddiffyn, estyniad a chysylltedd. Archwilio cyfleoedd rheoli effeithiol ar dir agored, e.e. pori, cyfundrefnau torri blynyddol<br>• Chwilio am gyfleoedd i gysylltu â gwaith sy'n mynd rhagddo ar fapio a chyflawni rhwydweithiau ecolegol gwydn, gan weithio gyda thimau lleol a phartneriaid allanol (e.e. partneriaethau natur lleol). |
| Coedwigoedd a'r amgylchedd hanesyddol | **Diogelu'r amgylchedd hanesyddol**<br><br>• Parhau i nodi a gwarchod nodweddion treftadaeth ac archaeolegol pwysig (gan gynnwys nodweddion archaeolegol nad ydynt wedi'u rhestru), gan gynnwys yr amgylchedd naturiol hanesyddol a chan ystyried mannau problemus Heneb sydd wedi'u diweddaru.<br><br>• Mae wyth heneb gofrestredig o fewn ardal Cynllun Adnoddau Coedwig Gethin ac Ynysowen a fydd yn cael eu gwarchod rhag gweithrediadau coedwig ac a ystyriwyd yn nyluniad y goedwig, gyda lle agored priodol ar gyfer eu lleoliadau, a bydd y rhain yn parhau i gael eu cynnal a'u cadw'n rheolaidd yn unol â chynlluniau rheoli Cadw.<br><br>• Mae yna ychydig o goed hynod o fewn prif floc Gethin a mwy o fewn Ystad Allen, Treharris, Ynysowen ac Aberfan. Mae angen cadw a diogelu'r rhain rhag gweithrediadau gerllaw, gan ystyried faint maen nhw'n agored i niwed. |
| Coedwigoedd a thirwedd | • Mae'r ardal goedwig hon yn weladwy iawn o nifer o gymunedau a phriffyrdd prysur, felly bydd y cynllun yn gwella amrywiaeth weledol y goedwig trwy gynyddu'r amrywiaeth adeileddol ac amrywiaeth rhywogaethau o fewn a rhwng celli a chynyddu coetir torlannol a brodorol.<br><br>• Yn raddol, bydd mwy o'r gwaith o reoli'r goedwig yn cael ei wneud trwy System Goedamaeth Fach ei Heffaith a choedwigaeth gorchudd di-dor, gan leihau effeithiau ar y dirwedd a chynyddu amrywiaeth adeileddol. Lle mai llwyrgwympo coed yw'r system goedamaeth briodol, byddwn yn cynllunio llennyrch torri coed llai lle bo modd er mwyn cyfyngu ar yr effaith ar dirwedd y goedwig. |

| | |
|---|---|
| | • Parhau i wella amwynder y dirwedd, gan ddefnyddio dewis o system goedamaeth ac arallgyfeirio fel uchod a chymysgeddau rhywogaethau, ac yn ogystal lleihau unrhyw linellau caled a breciau artiffisial trwy feddalu ymylon gyda choetiroedd olynol a chymysg. |
| Coedwigoedd a phobl | **Hamdden a llesiant**<br><br>• Cefnogi BikePark Wales ym mhrif floc Coedwig Gethin. Rhaid cyflawni rheoli coedwigoedd yn unol â Gweledigaeth Coedwig y Dyfodol ar gyfer y safle hwnnw.<br><br>• Parhau i gynnal ardaloedd eraill o'r cynllun adnoddau coedwig ar gyfer gweithgareddau hamdden tawel, e.e. cerdded, beicio, marchogaeth<br><br>• Lle bo'n briodol, gweithio gyda'n partneriaid a'n cymunedau er mwyn nodi sut a ble y gall Ystad Goetir Llywodraeth Cymru ddarparu atebion ar sail natur ar gyfer iechyd a lles a darparu cyfleoedd i fwy o bobl gysylltu â natur.<br><br>• Gweithio gyda phartneriaid (yr heddlu, y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, awdurdodau lleol) er mwyn atal ac addysgu'r cyhoedd am yrru oddi ar y ffordd yn anghyfreithlon a thipio anghyfreithlon<br><br>• Bydd y goedwig yn cael ei hymgorffori yn rhwydwaith Coedwig Genedlaethol Cymru dros yr ychydig flynyddoedd nesaf<br><br>**Bod yn gymdogion da**<br><br>• Parhau i ymgynghori ac ymgysylltu â'n partneriaid, cymunedau a rhanddeiliaid eraill ynghylch gweithrediadau a mesurau rheoli'r goedwig sydd ar ddod er mwyn meithrin perthnasoedd gwaith da, gwella addysg a gwybodaeth am reoli coedwigoedd yn gynaliadwy, a lleihau gwrthdaro, e.e. bod yn glir ynghylch mynediad yn ystod gweithrediadau a gosod arwyddion ar gyfer dewisiadau eraill a sicrhau diogelwch ein hymwelwyr |
| Coedwigoedd a phridd | **Rheoli pridd**<br><br>• Parhau i ddilyn arfer da i gyfyngu ar ddifrod i briddoedd yn ystod cynaeafu ac wrth baratoi'r safle, gan ystyried a ellir lleihau aflonyddwch pridd trwy ddewis y dull tyfu |

| | |
|---|---|
| | • Ystyried meysydd lle gallwn leihau dibyniaeth ar beiriannau trwm a defnyddio opsiynau effaith is, e.e. torri coed â cheffylau er mwyn cyfyngu ar gywasgu pridd, rhigoli ac erydiad |
| Coedwigoedd a dŵr | **Rheoli dŵr**<br>**Perygl llifogydd**<br>• Ni fydd rheoli coedwigoedd yn cyfrannu at berygl llifogydd o fewn y coetiroedd nac oddi ar y safle. Dylid ceisio cyfleoedd a'u gweithredu i leihau unrhyw risg bosibl o lifogydd. Cyflawnir hyn drwy arfer coedwigaeth da yn unol â Safon Coedwigaeth ddiweddaraf y DU, gan ddilyn canllawiau coedwigaeth perthnasol ac arferion coedwriaethol sy'n helpu i liniaru dŵr ffo wyneb a chan roi sylw dyledus i'r Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru: 40997 Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru<br>• Byddwn yn ymgysylltu â'r Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol wrth gynllunio gweithrediadau torri coed<br>• Dylai ystyriaeth fanwl o fesurau i leihau cyfaint y llif sy'n gadael blociau coedwig gynnwys Rheoli Llifogydd yn Naturiol lle bo hyn yn briodol<br>• Symud ymlaen â gwaith ar wella'r rhwydwaith draenio drwy ddatgysylltu draeniau o gyrsiau dŵr<br>• Edrych ar gyfleoedd i Ystad Goetir Llywodraeth Cymru o fewn y cynllun hwn i gefnogi a chyd-fynd ag Uwchgynllun Dalgylch Strategaeth Taf ac archwilio opsiynau ar gyfer ffyrdd mwy arloesol o weithio<br><br>**Ansawdd dŵr ac adnoddau dŵr**<br>• Ni ddylai rheoli coedwigoedd achosi gostyngiad yn ansawdd dŵr o fewn nodweddion dŵr ar y safle a chyrsiau dŵr sy'n draenio oddi ar y safle – cyflawnir hyn trwy arfer coedwigaeth da yn unol â chanllawiau diweddaraf Safon Coedwigaeth y DU a thrwy gynyddu ein coetir clustogi torlannol, lle byddwn yn anelu at gymysgedd o gynefinoedd â chysgod a chysgod ysgafn wedi'u harwain gan amcanion lleol<br>• Parhau i ehangu a gwella cynefin coetir torlannol er mwyn creu coridor torlannol mwy naturiol ar gyfer cysylltedd ecolegol<br>• Symud ymlaen â gwaith ar drwsio cwlfertau sydd wedi blocio/cwympo a chael gwared ar rwystrau i fywyd gwyllt (e.e. ystyried ble mae cwlfertau'n creu rhwystr ac mae angen eu diweddaru neu eu gwaredu) |